**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau |
| **TEITL Y SWYDD** | Prif Swyddog Cyfathrebiadau Digidol |
| **RHIF Y SWYDD** | 502945 |
| **GRADD** | 11 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llantrisant |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | **Gradd a/neu brofiad perthnasol o weithio mewn cyfathrebiadau digidol.*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Gwybodaeth sicr o reoli cynnwys gwefan, technegau cyfathrebu digidol, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau perthnasol*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| | **Profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygu Gwefannau a Chynnwys Gwefan *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| | Profiad ymarferol o ddefnyddio Pecynnau Microsoft Office gan gynnwys Word, Excel ac Outlook | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Profiad o reoli prosiectau | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Profiad o reoli tîm | Dymunol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Proses Ddethol |

Dyddiad y Crëwyd: Ionawr 2019
Awdur: W Thomas (Pennaeth Perfformiad Gwasanaethau a Chyfathrebiadau)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | **Yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i geisio cyfleoedd i hyrwyddo a gwella effeithiolrwydd sefydliadol*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| | Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd hynod heriol yn gyson | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa | Hanfodol | Proses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | **Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd*** | **Hanfodol** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| | Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i hwyluso ac ysgogi timau traws adrannol | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i arwain, ymroi ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gymuned ill dau | Hanfodol | Proses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i ddeall a gweithredu gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau addas sy'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol a gofynion allweddol *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais / Proses Ddethol*** |
| | Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol, e.e. y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a rheoli eich llifoedd gwaith a'ch blaenoriaethau eich hun* | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i gynhyrchu gwaith cywir a phroffesiynol, gyda chywirdeb manwl | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i adnabod effaith a goblygiadau gwleidyddol posib o safbwynt strategol | Dymunol | Proses Ddethol |

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

Dyddiad y Crëwyd: Ionawr 2019
Awdur: W Thomas (Pennaeth Perfformiad Gwasanaethau a Chyfathrebiadau)